



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod: 1 Ebrill – 30 Mehefin 2014

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio ynghylch y safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer mae arolygwyr safle o ONR yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno ymholi am faterion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU	3
2	MATERION CYFFREDINOL	3
3	MATERION ANGHYFFREDINOL.....	Error! Bookmark not defined.
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL.....	5
5	NEWYDDION GAN ONR.....	6
6	CYSYLLTIADAU	7

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Cynhaliodd arolygydd diogelwch safle'r ONR ar gyfer gorsaf bŵer Wylfa arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y chwarter:

14, 15, 16, 17 Ebrill 2014.

12, 13, 14, 25, 16 Mai 2014.

10, 11, 12, 13 Mehefin 2014.

Hefyd yn ystod y cyfnod, gwnaeth arolygwyr arbenigol neu brosiect yr ONR arolygiadau ynghylch diogeledd y safle, digwyddiadau sydd wedi digwydd ar y safle, caead cyfnodol adweithydd 1, ac asesiad o adolygiad diogelwch cyfnodol yr orsaf a gyflwynwyd i ONR ym Medi 2013.

Mynychodd arolygydd safle diogelwch niwclear yr ONR gyfarfod o SSG yr orsaf.

2 MATERION CYFFREDINOL

2.1 Arolygiadau

Ymgwymerir ag arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfriad ag:

- yr amodau a atodir gan HSE / ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99), a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n cynnwys monitro gweithgareddau'r trwyddedai ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynhaliadau, prosiectau, addasiadau, newidiadau ynghylch achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae angen i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol dan lawer o'r amodau a atodir i'r drwydded safle niwclear er mwyn sicrhau cydymffurfriad â'r gyfraith. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau a wnaed a'u gweithredu.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhwysodd arolygiadau cyffredinol o orsaf bŵer Wylfa y meysydd dilynol:

digwyddiadau ar y safle;

dogfennaeth;

hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;

parodrwydd am argyfwng;

cau'n gyfnodol;

addasiadau i offer, cyfarpar ac achosion diogelwch;

mecanweithiau a dyfeisiau diogelwch;

archwilio, cynnal, arolygu a phrofi;

rheolau a chyfarwyddiadau gweithredu;

rheoli gweithrediadau gan gynnwys rheolaeth a goruchwyliaeth;
rheoli gwastraff ymbelydrol;
datgomisiynu;
gallu sefydliadol; a
diogelwch confensiynol.

Yn gyffredinol, barnodd ONR fod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofnion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle ystyriwyd bod angen gwelliannau gwnaeth y trwyddedai ymrwymiaidau boddhaol i ymdrin â'r problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd gydag unrhyw waith sydd ar ôl yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bydd angen, bydd ONR yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol er mwyn sicrhau y gweithredir mesurau adfer priodol er lles diogelwch yn ôl amserlenni rhesymol o ymarferol.

Cyfarfod Adolygu'r Ymarfer Argyfwng

Mynychwyd cyfarfod adolygu'r ymarfer argyfwng yn ystod y cyfnod er mwyn ystyried y canlyniad o'r ymarferion yr ymgwymerwyd â nhw gan yr orsaf yn 2013, er mwyn adolygu cynnydd ynghylch camau gweithredu mewn cysylltiad â threfniadau argyfwng, ac er mwyn trafod senario amlinellol ar gyfer yr ymarfer nesaf i'w arddangos i ONR nes ymlaen yn 2014. Mae'r trwyddedai wedi gwneud cynnydd i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella a nodwyd o ymarferion argyfwng blaenorol a arddangoswyd i ONR, ac mae wedi cytuno i adolygu camau unioni er mwyn sicrhau y'i cwblheir yn ôl amserlen resymol ymarferol. Bydd ONR yn dal i arsylwi ar ymarferion argyfwng yng ngorsaf bŵer Wylfa, er mwyn sicrhau bod arddangosiadau o'r trefniadau argyfwng o safon dderbyniol.

Dychweliad i Wasanaeth Adweithydd 1

Ar ôl i ONR roi Caniatâd i gychwyn adweithydd 1 ar ôl caead cyfnodol 2014, bu oedi ar ei ddychweliad i wasanaeth oherwydd problemau sydd wedi dod i'r amlwg a oedd yn golygu bod angen camau unioni i sicrhau bod yr adweithydd a thyrbinau yn addas i ddychwelyd i weithredu'n ddiogel a dibynadwy. Dychwelodd yr adweithydd i gynhyrchu pŵer trydanol yn ystod Gorffennaf 2014, ac er bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd maent yn disgwyl ei gwblhau cyn diwedd Awst 2014. Bydd ONR yn dal i fonitro gweithrediad adweithydd 1, a darparu diweddariadau yn adroddiadau'r dyfodol i SSG Wylfa, fel sy'n briodol.

Cyfarfod Cyswllt Rheoleiddiol.

Mynychodd arolygwyr ONR gyfarfod i ganiatáu i gynrychiolwyr awdurdodau'n ymarfer pwerau rheoleiddiol ar safle Wylfa i drafod materion o gydfuddiant gyda swyddogion cyfatebol o'r orsaf. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o'r orsaf, Magnox Cyfyngedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, arolygwyr diogeledd ONR ac arolygwyr diogelwch ONR. Darparodd y cyfarfod gyfle defnyddiol i awdurdodau rheoleiddio gwrdd gyda chynrychiolwyr o'r safle ac adnabod unrhyw feysydd lle gellid gwella rhyngweithio. Bydd ONR yn parhau i fonitro perfformiad diogelwch yr orsaf, a chydlynu gyda sefydliadau rheoleiddio eraill fel bo angen.

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (SSG)

Mynychwyd cyfarfod SSG gorsaf bŵer Wylfa yn ystod y cyfnod gan yr arolygydd diogelwch enwebedig ONR. Darparodd y cyfarfod gyfle i rhanddeiliaid Wylfa gwrdd a thrafod materion sy'n perthyn i'r orsaf, a gofyn am ymateb gan ONR ar reoleiddio'r safle, fel bo angen.

2.2 Arolygiadau System Diogelwch

Mae ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol ar ben arolygiadau ynghylch cydymffuriad yn seiliedig ar yr amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded safle niwclear. Mae'r drwydded safle niwclear yn mynnu bod rhaid i bob safle trwyddedig gael achos diogelwch ynghylch unrhyw weithrediad a allai effeithio ar ddiogelwch. Gyda'r adweithydd Magnox sy'n dal yn weithredol yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 system i ddarparu'r sylfaen ar gyfer arolygu systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'r galwadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw i arolygu'n systematig yr holl systemau cysylltiedig â diogelwch a nodwyd ar gyfer y safle dros gylch o bum mlynedd. Mae ONR yn ystyried y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel o sicrwydd sydd ei hangen bod gofynion yr achos diogelwch yn cael eu diwallu a bod y safle'n cael ei weithredu'n ddiogel.

Yn y chwarter hwn y system diogelwch a arolygwyd oedd y system i synhwyro cetrissen sydd wedi byrstio. Ar sail yr arolygiadau a wnaed, ystyriwyd bod y system yn cael ei gweithredu a'i chynnal yn unol â gofynion achos diogelwch yr orsaf. Lle nodwyd meysydd ar gyfer gwella, addawodd y trwyddedai y byddai'n cymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â nhw. Bydd ONR yn monitro cynnydd i gwblhau unrhyw waith a gytunwyd.

Gellir gweld manylion pellach o arolygiadau system ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleodd trwyddedig niwclear eraill ar: www.hse.gov.uk/nuclear/intervention-reports/index.htm.

3 MATERION ANGHYFFREDINOL

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

Adroddir y materion a digwyddiadau amlycaf yn ystod y cyfnod isod:

Newid o Sefydliad Rhiant-Gorff ar gyfer Cwmnïau Trwydded Safle Niwclear

Ar ddiwedd Mawrth 2014 cyhoeddodd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) mai Cavendish Fluor Partnership (CFP) oedd y cynigydd a ffefrir i gymryd y rôl o Sefydliad Rhiant-Gorff (PBO) yn Magnox Cyf (MXL) a Research Sites Restoration Cyf (RSRL). Mae proses bontio'n digwydd tan ddiwedd Awst 2014, gydag CFP yn cymryd rheolaeth lawn ar y cwmnïau trwydded safle niwclear ar 1 September 2014. Yn y cyfamser, mae ONR a'r asiantaethau amgylchedd wedi bod mewn dialog gydag CFP a NDA i sicrhau y bydd y PBO: yn barod i gymryd rheolaeth ar y deg safle trwyddedig MxL (gan gynnwys Wylfa) a dau safle trwyddedig RSRL; yn cael unigolion addas yn eu lle i dderbyn rolau enwebedig ar y safleoedd; y bydd y safleoedd yn parhau i gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol amgylcheddol ynghylch diogelwch, diogeled, cludiant, mesurau diogelu; ac, y bydd ymgynghori priodol â'r cwmnïau trwydded safle'n digwydd. Bydd ONR yn darparu diweddariadau pellach yn adroddiadau SSG y dyfodol ar gynnydd i gwblhau'r broses bontio ac adrodd ar unrhyw newidiadau sefydliadol sylweddol ar y safleoedd a gynigir gan y PBO amnewid.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIO

- 5 Gall arolygwyr ONR, arolygwyr arbenigol ac arolygwyr HSE gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffuriad â gofynion rheoleiddiol. Dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu i ryw fath o gamau gweithredu gael eu cymryd; fel arfer gelwir y rhain yn gasgliadol "Offerynnau Trwydded" (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd yr LIs a Hysbysiadau Gorfodi dilynol yn ystod y cyfnod:

Tabl 1

Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a gyhoeddwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn

Date	Type	Ref No	Description
14/5/2014	Cymeradwyaeth	LI 561	Cymeradwyaeth o ddiwygiad i reol weithredu i ganiatáu trosglwyddo elfennau tanwydd ychwanegol o adweithydd 2 i adweithydd 1.
17/4/2014	Caniatâd	LI 562	Caniatâd i NDA brydlesi tir i Magnox Cyfyngedig i'w ddefnyddio gan orsaf bŵer Wylfa.

Gellir gweld adroddiadau'n darparu'r sail am benderfyniadau rheoleiddiol ar wefan ONR ar www.hse.gov.uk/nuclear/pars.

6 NEWYDDION GAN ONR

Gellir gweld mewnwelediad i waith ONR fel rheoleidiwr annibynnol o'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar y prif themâu a datblygiadau ym mhob un o raglenni rheoleiddio ONR ac yn darparu diweddariad ynghylch y newidiadau parhaol yn ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddarach gan ONR, ewch i'r wefan (<http://www.onr.org.uk/index.htm>) a chofrestrwch i dderbyn ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

Adroddiad Blynyddol a Sefyllfa Ariannol 2013-14

Mae ONR wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2013-14, mae'r adroddiad yn ddogfen ategol i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon HSE 2013/14 (<http://www.hse.gov.uk/aboutus/reports/1314/index.htm>) ac fe'i bwriedir i gyflwyno ein safbwynt agoriadol o ran cyflawniadau a rheolaeth ariannol ill dau, wrth inni ddechrau bywyd fel corfforaeth gyhoeddus.

Mae'n cynnwys Datganiad Blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear 2013/14 ar ddiogelwch a diogeledd yr ystad niwclear ac mae'n crynhoi dyfarniadau ONR ar y meysydd mae'n eu rheoleiddio.

Gyda'r adroddiad hwn rydym yn dweud bod yr holl safleoedd rydym yn eu rheoleiddio yn saff a diogel a maent yn gweithio i leihau peryglon.

Mae gwaith pellach i'w wneud ar rai safleoedd, yn arbennig Sellafield lle mae gennym strategaeth reoleiddiol newydd yn ei lle, ac rydym yn ymgysylltu â thrwyddedeion i sicrhau gwelliannau mewn meysydd penodol.

Mae'r adroddiad ar gael ar wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/documents/2014/onr-annual-report-1314.pdf>).

Strategaeth ONR 2015-2020

Mae ONR yn ceisio adborth ar ei strategaeth newydd sydd newydd ei chyhoeddi, sy'n darparu gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer ONR a rheoleiddio niwclear am y pum mlynedd nesaf.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 14 Gorffennaf i 6 Hydref ar y wefan ONR. Mae gan ONR rwymedigaeth statudol i gael y strategaeth newydd yn ei lle erbyn 1 Rhagfyr.

Gellir lawrlwytho'r strategaeth trwy dudalen ymgynghoriadau cyhoeddus y wefan ONR. (<http://www.onr.org.uk/consultations/index.htm>).

7 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS

gwefan: <http://www.hse.gov.uk>
e-bost: ONREnquiries@hse.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn ewch i www.hse.gov.uk/nuclear.

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2014

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Published 04/14

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar wefan ONR yn aros y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu brintio'n golygu bod y ddogfen hon heb ei rheoli.